

**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd)  
(Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth yn Adran yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022.

Julie James AS  
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**  
25 Ionawr 2022

# Rhan 1

## 1. Disgrifiad

Bydd Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018") sy'n gymwys o ran Cymru. Maent yn darparu bod yr amserlen ar gyfer gosod ffioedd penodol yng Nghymru yn cyd-fynd â'r cyfnod graddoli trosiannol estynedig.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad

Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae'r offeryn yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan baragraff 7(2) o Atodlen 4 a pharagraffau 12 a 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r offeryn hwn yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

Mae Rheoliad (UE) 2016/2031 ar fesurau diogelu yn erbyn plâu planhigion, a Rheoliad (UE) 2017/625 ar fesurau rheoli swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill (a gyflawnir er mwyn sicrhau bod cyfraith ar fwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, ac ar iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael eu cymhwyso), yn sefydlu mesurau rheoli a chyfyngiadau sy'n berthnasol wrth fewnforio a symud planhigion penodol, plâu planhigion a deunydd arall yn fewnol. Diben y Rheoliadau hyn yw helpu i leihau risgiau i fioddioigelwch a diogelu'r amgylchedd rhag lledaeniad plâu niweidiol.

O dan Erthygl 79 o Reoliad (UE) 2017/625, mae'n ofynnol codi ffioedd am fesurau rheoli swyddogol penodol, gan gynnwys gwiriadau iechyd planhigion ar lwythi rheoleiddiedig penodol sy'n cael eu mewnforio. Mae Rheoliadau 2018 (fel y'u diwygiwyd) yn pennu ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru mewn perthynas â gwasanaethau iechyd planhigion, gan gynnwys gwasanaethau archwilio mewnforion, a ddarperir yng Nghymru.

Mae Atodiad 6 i Reoliad (UE) 2017/625 yn rhoi ystyr y cyfnod graddoli trosiannol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Roedd gwiriadau dogfennau, gwiriadau adnabod ac archwiliadau ffisegol o blanhigion a reoleiddir, ac o gynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill, i fod i gael eu cyflwyno'n raddol yn 2021/22, yn rhan o'r cyfnod graddoli trosiannol a oedd yn pennu'r gwiriadau glanweithdra a ffytoiechydol (SPS) a oedd i'w cynnal, a'r dyddiad yr oeddent i'w cynnal, ar yr holl blanhigion a chynhyrchion planhigion blaenoriaeth uchel a heb flaenoriaeth uchel.

Mewn newidiadau a wnaed yn ddiweddar, estynnwyd y cyfnod graddoli a phennwyd dyddiad diwygiedig, 1 Gorffennaf 2022, ar gyfer cyflwyno'r gwiriadau SPS gofynnol. Gwnaed y newidiadau hynny drwy ddiwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2021 a ddaeth i rym ar 30 Rhagfyr 2021, ar ôl cael cydsyniad Llywodraeth Cymru. Mae'r amserlen ddiwygiedig yn adlewyrchu'r heriau y mae cadwyni cyflenwi byd-eang ar gyfer y sectorau mewnfornion a chyflenwi byd wedi'u hwynebu yn sgil y pandemig.

Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys y gwiriadau SPS ffisegol a'r gwiriadau adnabod a fydd yn ofynnol ar gyfer planhigion a chynhyrchion planhigion â blaenoriaeth uchel a heb flaenoriaeth uchel. Bydd y gwiriadau hynny'n dechrau o'r dyddiad diwygiedig, 1 Gorffennaf 2022 ac yn golygu, felly, bod un dyddiad wedi'i bennu o dan y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol ar gyfer dechrau gwiriadau ar yr holl nwyddau SPS a fewnforir i Brydain Fawr o'r UE.

Fodd bynnag, mae dal angen diwygiad canlyniadol arall i sicrhau na fydd y ffioedd angenrheidiol am fewnforio planhigion yn cael eu codi ar fusnesau yng Nghymru cyn y dyddiad gweithredu newydd ar 1 Gorffennaf 2022. Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth yn pennu mai'r dyddiad gweithredu ar gyfer ffioedd yng Nghymru yw 1 Mawrth 2022.

Er mwyn i'r amserlen ar gyfer cyflwyno ffioedd yng Nghymru gyd-fynd â'r amserlen ar gyfer cyflwyno gwiriadau eraill o dan y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol, a chyda'r amserlen ar gyfer gweddill Prydain Fawr, mae angen diwygio'n deddfwriaeth ddomestig ar ffioedd iechyd planhigion. Drwy ddefnyddio Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, gellir gwneud y newidiadau angenrheidiol i Reoliadau 2018.

## **5. Ymgynghori**

Er nad oes unrhyw ofyniad i ymgynghori o dan Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad byr, wedi'i dargedu, drwy'r e-bost ym mis Rhagfyr 2021. Roedd yr ymgynghoriad hwnnw'n cael ei gynnal ar ran Gweinidogion Cymru hefyd, ac fe'i hanfonwyd at fwy na 120 o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys rhai yng Nghymru. Ni ddaeth unrhyw ymatebion i law yn gwrthwynebu'r cynigion.

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ystyriwyd Cod Gweinidogion Cymru ar Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, a barnwyd nad oedd angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol. Mae'r Rheoliadau'n 'welliant technegol' i ddeddfwriaeth yn hytrach nag yn newid polisi i'r drefn reoleiddio ei hun. Fel y nodir yn 3.2 o God Gweinidogion Cymru, mae diwygiad ffeithiol nad yw'n newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol – fel sy'n wir am y Rheoliadau hyn – yn cael ei ystyried yn eithriad.

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol. Mae'r oedi cyn cyflwyno ffioedd yr un mor berthnasol i bob busnes sy'n mewnfario deunydd planhigion a reolir, gan gynnwys busnesau bach.

Nid oes unrhyw effaith, neu effaith sylweddol, ar fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddol.

O ran Deddf Llywodraeth Cymru 2006, nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn cael unrhyw effaith ar bartneriaid statudol (adrannau 72-75) nac ar y dyletswyddau statudol (adrannau 77-79).

Mae'r diwygiadau yn yr offeryn hwn yn cadw'r polisi presennol ar gyfer masnach o fewn y DU; na ddylai gwasanaethau allforio a chyn-allforio llawn fod yn faich ariannol ychwanegol i fusnesau wrth iddynt symud nwyddau o fewn marchnad fewnol y DU.

### **Asesu'r Gystadleuaeth**

Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau effeithio ar lefelau cystadleuaeth yng Nghymru nac ar gystadleurwydd busnesau Cymru.